OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2025 Rhif 1338 (Cy. 218)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgeman Hill i Pope Hill, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2025

Gwnaed	*16 Rhagfyr 2025*
Yn dod i rym	*17 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffordd yr A4076, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgeman Hill i Pope Hill, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2025 a daw i rym ar 17 Rhagfyr 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dileu cyfyngiad

3. Bydd y darnau o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt a leolir 867 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o gyffordd Parc Brickhurst hyd at bwynt a leolir 1800 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r un gyffordd honno yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Dredgmans Hill, Johnston, Hwlffordd, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiad) 2005(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 16 Rhagfyr 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2005 Rhif 3234 (Cy. 240).